

# PRIDE CYMRU
# 2024 PROGRAMME




**CARDIFF CASTLE**
**CASTELL CAERDYDD**

**22 & 23 JUNE**





**PRIDE HAPUS!**

**Mae eleni yn garreg filltir bwysig wrth i ni ddathlu 25 mlynedd o Pride yng Nghymru. Mae'r hyn a ddechreuodd fel grŵp bach yn ymgynnull wedi blodeuo'n ddathliad bywiog, cynhwysol sy'n dod â miloedd o bobl o gefndiroedd amrywiol at ei gilydd, er mwyn dathlu cariad, cydraddoldeb a diwylliant o dderbyn.**

**Wrth gwrs, mae gwreiddiau gweithredu dros LHDTC+ yn dyddio'n ôl dros 25 mlynedd. Dw i'n hynod ymwybodol o'r ffaith ein bod yn sefyll ar ysgwyddau hoelion wyth ein mudiad - y rhai hynny a frwydrodd yn erbyn gwahaniaethu mewn cyd-destun hollol wahanol a nodweddwyd gan elyniaeth. Rydym yn anrhydeddu eu hymroddiad trwy barhau i wthio'r ffiniau a defnyddio Pride fel llwyfan i frwydro yn erbyn ymdrechion modern i wadu hawliau pobl LHDTC+ i fod yn nhw eu hunain.**

**I'n gwirfoddolwyr, noddwyr, partneriaid, a mynychwyr — diolch. Mae eich cyfraniadau, p'un ai trwy'r rhodd o amser, adnoddau, neu, yn syml, o fod yn bresennol, wedi bod yn amhrisiadwy. Rydych chi wedi helpu i greu lle i bawb allu dathlu eu gwir hunaniaeth, dysgu oddi wrth ei gilydd, a chreu cysylltiadau sy'n para am oes.**

**Diolch i chi am ymuno â ni i ddathlu cariad, amrywiaeth a datblygiad. Edrychwn ymlaen at 25 mlynedd arall o Pride yng Nghymru!**

**Gian Molinu (ef) Cadeirydd Pride Cymru**

# CYNNWYS


Tudalen 2 - Rhagymadrodd y Cadeirydd
Tudalen 3 - Cynnwys
Tudalen 4 - Gwynlons
Tudalen 5 - Principality Prif Lwyfan
Tudalen 6 - Llwyfan Cymunedol S4C
Tudalen 7 - Gorymdaith
Tudalen 9 - Map y Safle
Tudalen 10 - Marchnadoedd
Tudalen 11 - Nwyddau
Tudalen 12 - Ardal BT Group I Deuluoedd
Tudalen 13 - Ardal Ieuenctid Admiral
Tudalen 16 - Hygyrchedd
Tudalen 18 - Pabell Ffydd
Tudalen 19 - Y Wobr Iris
Tudalen 20 - Noddwyr
Tudalen 22 - Gwirfoddoli
Tudalen 23 - Gwybodaeth Ymarferol
Tudalen 26 - Cadwch mewn cysylltiad
Tudalen 27 - Diolch

# GWYNLONS

21.06.24

# VIGIL GWYLNOS

PRIDE CYMRU

A SERVICE TO COMMEMORATE AND CELEBRATE, WITH GUEST SPEAKERS & PERFORMANCE ART.

GWASANÁETH I GOFFAU A DATHLU, EFO SIARADWYR GWADD & CELF PERFFORMIAD

DATE: FRIDAY 21ST JUNE 2024 TIME: 19:30 - 21:30 LOCATION: CASTLE MEWS

DYDDIAD: DYDD GWENER Y 21AIN MEHEFIN 2024 AMSER: 19:30 - 21:30 LLEOLIAD: CASTLE MEWS



# LINE UP

PRIDE CYMRU 25

Principality Building Society / Cymdeithas Adeiladu

## MAIN STAGE
## PRIF LWYFAN

### SATURDAY / DYDD SADWRN

**VENGABOYS**

ULTRABEAT • HOUSE GOSPEL CHOIR • TOM ASPAUL
DONNA MARIE AS LADY GAGA • YSHEE BLACK
SON OF A TUTU • KARA MARNI • PIXIE PEREZ • MISS KITTY FLETCH • CWMBRAN DEAF CHOIR • BARONESS MARY GOLDS
POLLY AMOROUS • ESTHER PARADE • GIGI SPOT
HEY MARY • DJ FLYBOY

### SUNDAY / DYDD SUL

**JAKE SHEARS**

HEATHER SMALL • VICTORIA SCONE • DANNY BEARD
DAGNY • BRONWEN LEWIS • HARLEYMOON KEMP
SARAH JAYNE AS SHANIA TWAIN • KIZZY CRAWFORD
DR BEV • LOUIS CYFER • SOUTH WALES GAY MENS CHORUS
JUSTIN DRAG • CORRIN CASINI • JORDROPPER
DIXIE NORMOUS • VENETIA BLIND • THE GATHERING

CARDIFF CASTLE CASTELL CAERDYDD
22ND & 23RD JUNE 22AIN & 23AIN FEHEFIN

*line up subject to change on event days
*gall yr line-up newid ar y diwrnod y perfformiadau

# LINE UP

PRIDE CYMRU 25

## S4C COMMUNITY STAGE
## LLWYFAN CYMUNEDOL S4C

### SATURDAY / DYDD SADWRN

POLLY AMOROUS HEY MARY LOUISE HALL EADYTH
DIXIE NORMOUS LOYD BARONESS MARY GOLDS
CATTY KHLOE BUTTLIFT CATRIN FEELINGS EE CHOIR
FRANKIE WESSON CATRIN HERBERT ADMIRAL CHOIR
EVIE WILLIAMS SION A SIAN ROB & JADE

### SUNDAY / DYDD SUL

CABARELA ANGEL HOTEL CONNIE ORFF
VENUS FLYTRAP TUMI WILLIAMS CHAE WITH A C
COSMIC NINJA PWDIN REIS WYBURN & WAYNE
TANA

**CARDIFF CASTLE CASTELL CAERDYDD**
**22ND & 23RD JUNE 22AIN & 23AIN FEHEFIN**

*line up subject to change on event days
*gall yr line-up newid ar y diwrnod y perfformiadau

# GORYMDAITH

Noddir gan

HODGE


**Bydd strydoedd Caerdydd yn byrlymu â lliw, cerddoriaeth, a'r ymdeimlad hwnnw o gynhwysiant sy'n annatod â Pride Cymru. Gan ymgynnull ar Stryd y Porth a dechrau yng nghastell eiconig Caerdydd, bydd yr orymdaith filltir o hyd yn teithio trwy galon y ddinas, gan arddangos amrywiaeth gyfoethog a chryfder ein cymuned. Paratowch i weld amrywiaeth syfrdanol o gyfranogwyr, gan gynnwys grwpiau, cynghreiriaid a busnesau lleol sy'n gefnogol o LHDTCRA+, pob un yn gorymdeithio gyda'i gilydd mewn undod. Mae'r orymdaith yn dathlu ein cynnydd hyd yma, gan dynnu sylw at faint mwy y mae angen i ni ei wneud er mwyn sicrhau cydraddoldeb a chynhwysiant i bawb.**

**With thanks to our Parade Partner, Hodge Bank, their support pays for road closures, traffic management and stewarding to keep you safe.**





Dydd Sadwrn 22 Mehefin
Amser: 11yb
Dechrau: Heol y Porth




pridecymru.com/parade

# CARDIFF CASTLE

## 22-23 JUNE 2024



# MARCHNADOEDD

**Bydd Marchnadoedd Pride Cymru yn cynnig mwy o lawer na dim ond ardal siopa – byddant yn ddathliad o greadigrwydd, gwydnwch ac ysbryd ein cymuned. Wrth i ni nodi 25 mlynedd o Pride yng Nghymru, bydd y farchnad yn tynnu sylw at y cynnydd rydym wedi'i wneud a'r amrywiaeth fywiog sy'n gwneud ein cymuned mor arbennig. Bydd y marchnadoedd yn cynnwys amrywiaeth eang o stondinau a gwerthwyr, gan arddangos y gorau sydd gan ein cymuned i'w gynnig. O grefftwyr ac artistiaid lleol i sefydliadau a busnesau LHDTCRA+, bydd rhywbeth i bawb ei fwynhau a'i gefnogi.**






# NWYDDAU

**Get ready to show your Pride Cymru spirit with our exclusive merchandise, available for purchase at the event from our Merch Stall!**

**From vibrant t-shirts and stylish hats to colorful hoodies and unique accessories, we've got everything you need to celebrate in style. Every purchase supports Pride Cymru and helps us continue to spread love and inclusivity. Don't miss out—grab your gear and wear your pride proudly!**















# ARDAL BT GROUP I DEULUOEDD

Noddir gan

BT Group

**Dewch i ddathlu Pride gyda'r teulu cyfan. Mae Ardal BT Group i Deuluoedd ym mhen gogleddol y Castle Mews. Mae'r lle wedi'i ddynodi'n arbennig i deuluoedd, â chynhwysiant wrth ei wraidd.**
**Eleni mae'n arddangos dewis amrywiol o weithgareddau i blant, gan annog pawb i ddathlu Pride mewn ffyrdd na fyddent wedi'u dychmygu o'r blaen!**

**Rydym yn hynod gyffrous i gael Techniquest, Scouts Cymru ac ATE yn dychwelyd ar gyfer 2024 i ddarparu hwyl sy'n addas i deuluoedd. O gemau parasiwt i baentio wynebau, dod â gwyddoniaeth yn fyw trwy brofiadau chwarae ymarferol a gweithdai, mae rhywbeth at ddant pawb!**

**Oeddech chi'n gwybod bod plant o dan 5 oed yn gallu mynychu'r digwyddiad yn rhad ac am ddim gyda thocyn dilys – lysh!**





# ARDAL IEUENCTID ADMIRAL

Noddir gan Admiral

Pleser o'r mwyaf yw cyhoeddi bod ein hardal ieuenctid yn ôl ar gyfer 2024. Mae'r ardal ddynodedig hon wedi'i chynllunio i rymuso, ysbrydoli a dathlu aelodau ifanc y gymuned LHDTCRA+. Eleni, mae'r ardal yn cael ei noddi gan Admiral a'i chynnal mewn partneriaeth â Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd, Caerdydd sy'n Dda i Blant (UNICEF), Pasbort i'r Ddinas, a grwpiau ieuenctid LHDTC+ - Impact LGBTQ+ a Constellation. Wedi'i lleoli gyferbyn â'r cyrtiau tennis agosaf at y castell ar Castle Mews, bydd Ardal Ieuenctid Admiral yn darparu ardal ddiogel a chefnogol i bobl ifanc 13-25 oed sy'n annog hunanfynegiant, dysgu ac adeiladu cymunedol. Dewch i gwrdd â hen ffrindiau a rhai newydd wrth fwynhau lle i chi gael dianc, cael eich anadl atoch ac ymlacio yn y Ardal Ddi-alcohol.

# ARDAL IEUENCTID ADMIRAL

Cefnogir gan y Gronfa Loteri Gymunedol

## Saturday 22nd June

CIRCUS SKILLS WITH FIERYJACKS

SILENT DISCO AREA

CREATIVE SESSIONS

## Sunday 23rd June

LIVE PERFORMANCES AND MUSIC BY MINISTRY OF LIFE AND LITTLE GIGS!

T SHIRT PRINTING* WITH PRINTHAUS

*T SHIRTS SUBJECT TO AVAILABITLITY

# ARDAL IEUENCTID ADMIRAL

Cefnogir gan y Gronfa Loteri Gymunedol

## Workshops

↘ YOUTH AREA ↘ SUN

| | |
|---|---|
| 12.00<br>2.00 | **JUSTIN DRAG**<br>↘ Navigating Your Transition Safely and Informed |
| 12.30<br>2.30 | **G(END)ER SWAP**<br>↘ Expressing our pride stories through style |
| 1.00<br>3.00 | **CARDIFF SHOT**<br>↘ Sexual Health and Healthy Relationships |
| 1.30<br>3.30 | **QUEERTAWE**<br>↘ LGBTQIA+ identity and inclusion – Queer Belonging |

# HYGYRCHEDD

Noddir gan

veezu.
smarter **local** rides.

**Rydym yn deall bod llawer o aelodau'r gymuned angen cymorth ychwanegol i allu mwynhau popeth sydd gan yr ŵyl i'w gynnig. Bydd ein tîm ymroddgar o staff Hygyrchedd ar y safle drwy'r penwythnos i sicrhau bod y digwyddiad mor hygyrch â phosibl i bawb.**

**Mae'r cymorth a'r adnoddau ychwanegol sydd ar gael yn cynnwys:**

**Llwyfan â seddi er mwyn i bobl wylio ohoni**

**Toiledau hygyrch gan gynnwys uned RevoLOOtion llawn gyda theclyn codi trydanol, dolenni cydio, a bwrdd newid addasadwy.**

**Ail-fynediad i'r safle yn ôl yr angen.**

**Dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ar gyfer pob perfformiad ar Brif Lwyfan Cymdeithas Adeiladu'r Principality a pherfformiadau ar Lwyfan Cymuned S4C**

**Dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ar gael ym mhob rhan o'r safle**





# HYGYRCHEDD



**Tocynnau i Ofalwyr / Cynorthwywyr Personol**

**Os oes angen gofalwr neu Gynorthwy-ydd Personol arnoch i fynd gyda chi i Pride Cymru 2024, prynwch docyn hygyrch ar gyfer y diwrnod o'ch dewis chi – ac ychwanegwch docyn mynediad 'VIP' os ydych chi am gael profiad mwy arbennig fyth! Yna bydd un o'n Tîm Mynediad hyfryd yn cysylltu â chi er mwyn cadarnhau eich cymhwysedd ac i drafod eich anghenion penodol. Unwaith y bydd gennym dystiolaeth ofynnol o gymhwysedd, anfonir y tocyn ychwanegol atoch ar gyfer eich gofalwr/Cynorthwyydd Personol. Os ydych yn ansicr o'ch cymhwyster neu pa docyn i'w brynu, cysylltwch â'r Tîm Mynediad drwy e-bostio access@pridecymru.com**

**If you have any queries or would like to talk to someone about your needs please email access@pridecymru.com**

pridecymru.com/access

# Faith Tent **Programme**

THE FAITH SPACE
Y LLE FFYDD

## Saturday

Arts & Crafts
Calm Space
Board Games
Prayer Space

11:00
Pride March

17:00
Pride Eucharist in the Faith Tent

## Sunday

Arts & Crafts
Calm Space
Board Games
Prayer Space

10:00
Eucharist at St. John's

11:00
Screening and Q&A
'Fruits of the Spirit'

19:00
Pride Thanksgiving service at City URC

Esgobaeth Llandaf
Diocese of Llandaff

# Y WOBR IRIS

## Saturday 22 & Sunday 23

Screening every hour!
Starting at 1pm!

IRIS LOVES PRIDE CYMRU

*Each **hourly** screening will alternate between the two below programmes. On Saturday the last screening will start at 5pm and on Sunday the last screening will start at 4pm.*

## Animated Love

**Single: Meat Cubes**
Australia, 5 mins
**Aikane**
USA, 14 mins
**Diomysus**
Wales, 5 mins

## Iris Youth

**My Summer in the Human Resistance**
Australia, 5 mins
**Malwa Khushan**
India, 20 mins
**Realness with a Twist**
UK, 12 mins








# NODDWYR

## Main Stage

Principality Building Society
Cymdeithas Adeiladu

## Community Stage

S4C

## Family Area

BT Group

## Youth Area

Admiral

## VIP Area

Cardiff Hoteliers Association

## Parade

HODGE

## e-Tickets

veezu. smarter local rides.

## Platinum Sponsor

Trafnidiaeth Cymru
Transport for Wales

## Gold Sponsor

TESCO

## Silver Sponsors

Bute Energy

Banc

Harding Evans solicitors
Your lawyers, for life.

SONY
UK Technology Centre

McArthur Glen Designer Outlet Bridgend

Rhwydwaith LHDT+ Heddlu Cymru – LGBT+ Police Network Wales

Legal & General

FOR CARDIFF

## Bronze Sponsors

LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

Dŵr Cymru
Welsh Water

Sainsbury's

LGBTQ+ at sky

THE ROYAL MINT
THE ORIGINAL MAKER

thomas carroll

Aldermore
MotoNovo FINANCE

St David's
Dewi Sant

Starling Bank

Deloitte.

## Media Partners

itv PRIDE

CAPITAL

ROUTE

## Hotel Partners

CLAYTON HOTELS

HOTEL INDIGO CARDIFF

VOCO AN IHG HOTEL | St. David's Cardiff

Radisson BLU HOTEL, CARDIFF

LEONARDO Hotels

Hilton CARDIFF

# GWIRFODDOLI

Noddir gan S4C

**Mae ein gwirfoddolwyr wrth galon Pride. Beth bynnag fo'ch cefndir/profiad, os oes gennych ddiddordeb mewn helpu yng ngŵyl 2025, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych! Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth a gwneud cais yma.**

**Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os hoffech siarad â rhywun am eich anghenion e-bostiwch access@pridecymru.com**

**pridecymru.com/volunteer**












# GWYBODAETH YMARFEROL

**Doctoriaid**

**Mae'r Babell Feddygol yn Pride Cymru yn rhan hanfodol o sicrhau profiad diogel a phleserus i bawb sy'n bresennol. Wedi'i staffio gan weithwyr meddygol proffesiynol, mae'r babell yn darparu cymorth ar unwaith ar gyfer unrhyw bryderon iechyd, o fân anafiadau i gyflyrau mwy difrifol. Wedi'i lleoli wrth ymyl cerflun y ddraig, mae'r Babell Feddygol wedi'i pharatoi'n llawn i ddelio ag argyfyngau fel y gall pawb ddathlu gyda thawelwch meddwl gan wybod bod cymorth ar gael yn rhwydd os oes angen.**

**Lles**

**Wedi'i leoli wrth ymyl y Babell Feddygol, bydd Platfform wrth law i gynnig cyngor a chefnogaeth llesiant. P'un a ydych chi'n teimlo'n ofidus, wedi gor-fwynhau neu eisiau lle i ymlacio i ffwrdd o'r torfeydd, mae ein Pabell Les yn hafan ddiogel i fynychwyr yr ŵyl, gan ddarparu cyngor ar faterion sy'n cynnwys cam-drin cyffuriau ac alcohol, rhyw diogel, caethiwed, blinder a materion domestig.**

# GWYBODAETH YMARFEROL

**Dŵr**

**Mae mannau dŵr ym mhob bloc toiledau i chi lenwi eich poteli neu gwpanau y gellir eu hailddefnyddio ac mae dŵr yfed am ddim ar gael ar draws holl fariau'r ŵyl.**

**Plant coll**

**Os byddwch chi'n colli'ch plant, neu os ydyn nhw'n eich colli chi, mae ein tîm lles wrth law ac wedi'i leoli yn y Babell Les. Rhowch wybod ar unwaith i unrhyw wirfoddolwr neu'r tîm diogelwch ynglŷn â'ch plentyn coll a dilynwch eu cyngor.**

**Diogelwch**

**Mae Pride Cymru yn lle diogel i'n cymuned ddathlu amrywiaeth a chydraddoldeb, ac rydym yn disgwyl i fynychwyr ein holl ddigwyddiadau groesawu a pharchu hyn. Mae Pride yn gweithio gyda'n partneriaid darparu digwyddiadau ym mhob cam o'n gwaith cynllunio, gan sicrhau bod y digwyddiad yn brofiad diogel i bawb. Ni fydd ymddygiad treisgar, bygythiol neu sarhaus o unrhyw fath yn cael ei oddef p'un ai yn erbyn staff, gwirfoddolwyr, cyfranogwyr yr orymdaith, deiliaid stondinau'r farchnad, staff diogelwch neu aelodau'r cyhoedd.**


TECHNIQUEST
THE SCIENCE CAPITAL
SCIENCE & FUN FOR EVERYONE!
LIVE SCIENCE SHOWS
STAR TOURS
INTERACTIVE WORKSHOPS
100+ HANDS-ON EXHIBITS
OPEN 10am – 5pm
Every weekend & throughout the Summer holidays
Book now
techniquest .org


PRIDE HAPUS!
HAPPY PRIDE!
LLAIS

# CADWCH MEWN CYSYLLTIAD

**Oes gennych chi gwestiynau o hyd? Edrychwch ar ein tudalen Cwestiynau Cyffredin i weld a yw'ch cwestiynau eisoes wedi'u hateb.**

**Os nad yw'ch cwestiwn wedi'i ateb, anfonwch neges atom drwy ein ffurflen gyswllt neu ar ein cyfryngau cymdeithasol!**

[pridecymru.com/faqs](pridecymru.com/faqs)



# DIOLCH

**Am y 25 mlynedd diwethaf, mae Pride wedi denu cannoedd o wirfoddolwyr sy'n rhoi yn hael o'u hamser a'u hegni i wireddu'r digwyddiad arbennig hwn. Rydym yn ddiolchgar iawn i bob un ohonoch. Heb y miloedd o oriau o waith caled gan dros 150 o wirfoddolwyr, ni fyddai Pride Cymru yn bosibl. Rydym hefyd am ddiolch i bawb a gyfrannodd at Pride, a brynodd docyn neu a fynychodd ein digwyddiadau. Rydym yn ddigwyddiad nid-er-elw a bydd unrhyw arian dros ben yn cael ei gadw i fynd tuag at ddigwyddiadau yn y dyfodol.**

**Diolch o galon i'n holl bartneriaid digwyddiadau, a noddwyr. Mae eich cefnogaeth, ynghyd â rhoddion hael, yn sicrhau bod Pride yn parhau. Byddwch hefyd yn helpu i gynnal ein mentrau drwy gydol y flwyddyn.**
**I bawb sy'n helpu, gan gynnwys ein perfformwyr, staff gweithgar lleoliadau LHDTC+ sydd wrth law drwy gydol y flwyddyn, yr holl elusennau, busnesau a grwpiau sy'n cefnogi'r gymuned LHDTC+, a phawb sy'n cefnogi Pride...**
**DIOLCH!**







PRIDE CYMRU 25